

# Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021

## Crynodeb gweithredol

Awduron: Dr Pete King a Dr Justine Howard o Brifysgol Abertawe

Awst 2022

© Chwarae Cymru

Cyhoeddwyd gan: Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF10 3AF

**www.chwaraecymru.org.uk**

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Diolchiadau** | **3** |
| **Methodoleg** | **4** |
| **Crynodeb o'r canfyddiadau** | **5** |
| **Dadansoddiad o'r canlyniadau** | **6** |
| **Y gweithlu chwarae yng Nghymru** | **6** |
| **Newidiadau rhwng 2008 a 2021** | **7** |
| **Casgliad** | **12** |
| **Cyfeiriadau** | **12** |


## Diolchiadau


Comisiynwyd ac arianwyd ymchwil Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru gan Chwarae Cymru a'i gwblhau gan y Dr Pete King a'r Dr Justine Howard o Brifysgol Abertawe.

Dymunai'r awduron ddiolch i Chwarae Cymru yn ogystal â Llywodraeth Cymru am y cyfle i gynnal yr astudiaeth hon. Mae'r awduron am ddiolch hefyd i bawb gymerodd ran yn y cyfweliadau, yr arolwg a'r grwpiau ffocws.

# Methodoleg

Prif nod yr ymchwil oedd ennill dealltwriaeth o'r gweithlu chwarae yng Nghymru a chyfrannu at Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae 2019-21 Llywodraeth Cymru sy'n anelu i edrych ar chwarae yng nghyd-destun ehangach y ddyletswydd statudol. Mae'r ddyletswydd statudol yn berthnasol i ddeddfwriaeth a basiwyd fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ble mae gofyn i'r 22 awdurdod lleol gynnal Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADCh) a darperir arweiniad statudol yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*[1].

Cynhaliwyd astudiaeth chwe mis o hyd ar weithlu chwarae Cymru rhwng Mehefin a Rhagfyr 2021. Fel rhan o Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 cynhaliwyd arolwg ar-lein cenedlaethol, cyfweliadau gyda thri sefydliad cenedlaethol blaenllaw sy'n ymwneud â chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru, cyfweliadau gyda swyddogion arweiniol ADCh ar draws y 22 awdurdod lleol, grŵp ffocws a chyfweliadau gyda'r gweithlu chwarae. Ceir crynodeb o'r canlyniadau isod.

Mae'n bwysig nodi bod gwahaniaeth rhwng gweithlu gwaith chwarae a gweithlu chwarae. Mae'r gweithlu gwaith chwarae yn cwmpasu'r bobl hynny y mae eu rôl benodol ym maes gwaith chwarae. Mae'r gweithlu chwarae'n grŵp ehangach o bobl sy'n cynnwys y blynyddoedd cynnar a gofal plant ond gallai hefyd gynnwys pobl sy'n gweithio'n anuniongyrchol ym maes chwarae, er enghraifft gwleidyddion, cynllunio, priffyrdd, ac iechyd. Fodd bynnag, roedd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar y bobl hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.

Dynododd dadansoddiad thematig o'r canlyniadau bedair thema yng nghyd-destun y gweithlu chwarae. Y themâu hyn oedd:

- agwedd tuag at chwarae
- gweithio partneriaeth
- cyllid a datblygu
- trosglwyddo.

Adlewyrchir yr agwedd tuag at chwarae yn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae[2]. Roedd gweithio partneriaeth yn cynnwys o fewn a rhwng y tri sefydliad, ond hefyd gydag unigolion a sefydliadau allanol eraill, yn cynnwys awdurdodau lleol, lleoliadau sy'n ymwneud â chwarae ac unigolion yn y gweithlu chwarae.

Roedd y sefydliadau eraill sydd ag effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol o ran gweithio partneriaeth yn cynnwys:

- SkillsActive – Cyngor Sgiliau Sector
- Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) – goruchwylio'r fframwaith cymwysterau
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – cofrestru a rheoleiddio darpariaeth chwarae
- Llywodraeth Cymru – darparu canllawiau statudol a chyllid sy'n berthnasol i'r gweithlu chwarae yng Nghymru.

Mae'r cyfuniad o'r agwedd tuag at chwarae, gweithio partneriaeth a chyllid i gyd yn cyd-gysylltu trwy ddatblygiad a throsglwyddiad hyfforddiant a chymwysterau sy'n berthnasol i chwarae yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau gwaith chwarae ledled y DU a rhai sy'n benodol i Gymru.

Cynhaliwyd saith cyfweliad gyda swyddogion arweiniol ADCh gyda chwech awdurdod lleol yn cynrychioli pob un o chwe rhanbarth Cymru. Dynododd dadansoddiad thematig o'r canlyniadau dair thema: proffil chwarae, cydweithredu a chyllido. Mae'r cefndir chwarae o ran profiad, gwybodaeth a chymwysterau'n amrywio rhwng swyddogion arweiniol ADCh. Roedd continwwm o fod â dim profiad, gwybodaeth neu gymwysterau, i brofiad a gwybodaeth a dim cymwysterau, i feddu ar y tair agwedd. Adlewyrchwyd hyn yn agwedd yr awdurdod lleol tuag at y gweithlu chwarae ble roedd tîm chwarae sefydledig a ble roedd chwarae ond yn cael ei ystyried pan oedd angen cwblhau'r ADCh bob tair blynedd. Ble mae chwarae a'r gweithlu chwarae yn rhan annatod o'r awdurdod lleol trwy gydol y flwyddyn, roedd y swyddog arweiniol ADCh yn fwy profiadol a chymwys. Ble mae gan chwarae a'r gweithlu chwarae lai o flaenoriaeth o fewn yr awdurdod lleol, roedd profiad chwarae, gwybodaeth, a chymwysterau'r swyddog arweiniol ADCh yn is. Fodd bynnag, yr hyn oedd yn glir oedd pwysigrwydd chwarae a'r

angen i gydweithredu gyda'r gweithlu chwarae yn ogystal â gyda phartneriaid mwy strategol.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

Cynhyrchodd Arolwg Gweithlu Chwarae Cymru 384 o ymatebion a ddarparodd ddata ynghylch y proffil demograffig, cyflogaeth ac addysg a hyfforddiant. Cafwyd 211 o ymatebion gwaith chwarae, 90 o'r sector gofal plant / blynyddoedd cynnar a 90 gan weithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae, er enghraifft pobl sy'n defnyddio chwarae mewn ysbytai. Derbyniwyd ymatebion yn bennaf oddi wrth bobl sy'n byw a gweithio yn ne Cymru a de-ddwyrain Cymru. Fe wnaeth dadansoddi'r data gyflwyno trosolwg o'r gweithlu chwarae yn ei gyfanrwydd yn ogystal â chymariaethau rhwng y tri grŵp poblogaeth sy'n ffurfio'r gweithlu.

1. Mae canfyddiadau o elfen arolwg Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 yn arddangos bod y gweithlu chwarae, at ei gilydd, yn ddi-Gymraeg, gwyn, benywaidd heb unrhyw anabledd cofrestredig. Yr oedran cyfartalog ar draws y gweithlu chwarae ydi 37.63 oed ac mae oedran cyfartalog gweithwyr chwarae (33.43 oed) yn sylweddol wahanol o'i gymharu â gweithwyr gofal plant / y blynyddoedd cynnar (41.57 oed) a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae (43.44 oed).
2. Mae'r gweithlu chwarae'n cael ei gyflogi'n bennaf yn y sector statudol a'u cyflogi yn eu rôl / rolau cyfredol, ar gyfartaledd, am 7.03 mlynedd. Mae'r nifer o flynyddoedd yn gyflogedig yn eu rôl gyfredol yn ystadegol wahanol rhwng gweithwyr chwarae (5.85 mlynedd) a gweithwyr gofal plant / y blynyddoedd cynnar (8.48 mlynedd) a rhwng gweithwyr chwarae a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae (7.39).
3. Ar draws y gweithlu chwarae, roedd y nifer o flynyddoedd yn gyflogedig a rôl swydd rhwng rheolwr ac ymarferydd, rheolwr ac addysg a hyfforddiant, rheolwr a chydlynydd, a rheolwr a datblygu'n ystadegol wahanol.
4. Roedd y nifer cyfartalog o wahanol rolau'n uwch ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae, ac roedd hyn yn sylweddol wahanol rhwng gweithwyr chwarae a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae a rhwng gweithwyr gofal plant / y blynyddoedd cynnar a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae.
5. Roedd gweithwyr chwarae'n llai tebygol o gael un swydd amser llawn ac yn fwy tebygol o gael un swydd rhan amser, tra bo gweithwyr gofal plant / y blynyddoedd cynnar yn fwy tebygol o gael swydd amser llawn.
6. Roedd mwy o ddarpariaeth heb ei gofrestru nac wedi ei gofrestru gydag AGC. Roedd darpariaeth gofrestredig yn fwy tebygol o fod yn ddarpariaeth cyn ysgol, meithrinfeydd, gofal dydd a chynlluniau chwarae dros y gwyliau tra roedd clybiau ar ôl ysgol, meysydd chwarae antur, parciau / mannau agored, canolfannau cymunedol a lleoliadau eraill yn fwy tebygol i fod heb eu cofrestru.
7. Y raddfa gyfartalog yr awr yn llawn amser ydi £11.39 ar draws y gweithlu chwarae. Mae'r raddfa gyfartalog yr awr yn llawn amser yn fwy ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae (£14.17) o'i gymharu â gweithwyr chwarae (£10.76) a gweithwyr gofal plant / y blynyddoedd cynnar (£10.61) ac roedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.
8. Ar gyfer y swydd rhan amser gyntaf, y raddfa gyfartalog yr awr yn rhan amser ydi £11.40 ar draws y gweithlu chwarae. Mae'r raddfa gyfartalog gyntaf yr awr yn rhan amser yn fwy ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae (£18.11) o'i gymharu â gweithwyr chwarae (£10.29) a gweithwyr gofal plant / y blynyddoedd cynnar (£10.28) ac roedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.
9. Ar gyfer ail swydd rhan amser, y raddfa gyfartalog yr awr yn rhan amser ydi £14.83. Roedd yr ail raddfa gyfartalog yr awr yn rhan amser yn fwy ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae (£32.66) o'i gymharu â gweithwyr chwarae (£10.33) a gweithwyr gofal plant / y blynyddoedd cynnar (£11.57) ac roedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.
10. Y cyflog blynyddol cyfartalog amser llawn ar draws y gweithlu chwarae ydi £24,384.14 a'r cyflog blynyddol cyfartalog rhan amser (swydd 1 yn unig) ydi £11,922.61. Mae'r raddfa gyfartalog yr awr a'r cyflog blynyddol cyfartalog yn uwch ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae o'i gymharu â'r gweithlu gwaith chwarae a gofal plant / y blynyddoedd cynnar.

11. Roedd gan dros 50% o'r gweithlu chwarae yn yr astudiaeth hon gymhwyster gwaith chwarae. Roedd gan fwy o'r gweithlu chwarae gymhwyster gwaith chwarae neu ofal plant lefel 3. Astudiwyd ar gyfer NVQ/CACHE Gwaith Chwarae Lefel 2 neu Lefel 3 dros bum mlynedd yn ôl ar y cyfan tra bod MAHPS neu L2APP wedi eu hastudio'n bennaf o fewn y pum mlynedd diwethaf. O ran P³ Lefel 2, astudiwyd hwn dros bum mlynedd yn ôl a P³ Lefel 3 lai na phum mlynedd yn ôl.
12. O ran y bobl hynny sydd wedi astudio ar gyfer cymwysterau gofal plant, roedd y mwyafrif o lefel 2 i 5 wedi eu hastudio fwy na phum mlynedd yn ôl. Roedd y rheini sy'n meddu ar y cymhwyster Lefel 3 Pontio i Waith Chwarae'r un mor debygol o fod wedi astudio o fewn y flwyddyn i'r pum mlynedd ddiwethaf.
13. Mae perthynas gref rhwng ystod oedran ymatebwyr a'r cymwysterau sydd ganddynt. Mae'r ystod oedran 16-25 yn fwy tebygol o feddu ar ddim ond cymwysterau gwaith chwarae neu ofal plant neu i feddu ar yr un o'r ddau. Mae'r ystod oedran 26-35 yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau gwaith chwarae yn unig. Mae'r ystod oedran 56-65 yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau gofal plant neu'r blynyddoedd cynnar ond nid rhai gwaith chwarae.
14. Mae diddordeb mewn astudio ar gyfer cymwysterau gwaith chwarae, fodd bynnag y ddau brif rwystr ydi cost ac amser.
15. Roedd dros 50% o'r gweithlu chwarae yn yr astudiaeth hon wedi cyflawni rhyw fath o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Roedd hyn yn bennaf ar ffurf gweithdai / seminarau a chyrsiau byrion a'r mwyafrif wedi ei gwblhau ar-lein.
16. Roedd hyfforddiant perthnasol i chwarae'n gyfyngedig iawn, gyda gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae'n fwy tebygol o fod wedi cwblhau rhyw fath o hyfforddiant chwarae neu waith chwarae. Wrth eu holi am yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, mae gweithwyr chwarae'n llai tebygol o fod heb glywed amdanynt, tra bo gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae yn fwy tebygol o fod heb glywed amdanynt.

# Dadansoddiad o'r canlyniadau

Nod yr astudiaeth hon oedd ennill dealltwriaeth o bwy oedd y sector gwaith chwarae yn 2021. Cyflawnodd hyn trwy gasglu demograffeg gyflawn y sector yn ogystal â rhai o'u profiadau goddrychol. Cwblhawyd yr astudiaeth trwy gasglu data meintiol trwy arolwg a data ansoddol trwy gyfweliadau a grŵp ffocws. Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y gweithlu chwarae, a rannwyd yn dair poblogaeth: gweithwyr chwarae, gweithwyr gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae. Defnyddiwyd yr arddull hwn gan ei bod hi'n anodd cyflwyno ffigwr penodol o'r nifer o bobl sy'n gweithio yn y gweithlu chwarae yng Nghymru, fel y nododd Melyn:

> '*Mae'n debyg bod oddeutu 5,000 o bobl wedi'u cyflogi fel gweithwyr chwarae yng Nghymru ond bydd miloedd o bobl eraill sy'n defnyddio chwarae fel rhan o'u gwaith mewn meysydd eraill. Maent yn gweithio mewn ystod eang o sefydliadau sy'n cwmpasu nifer o sectorau. Mae'r rhain yn cynnwys gofal plant y tu allan i'r ysgol; cynlluniau chwarae dros y gwyliau; chwarae antur; darpariaeth chwarae mynediad agored; a chwarae cymunedol.*'[3]

## Y gweithlu chwarae yng Nghymru

Nododd adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru[4] bod oddeutu 17,000 o bobl yn gweithio yn y sector gofal plant. Byddai'r ffigwr o 5,000 yn 2010 wedi cynnwys yr holl brosiectau a arianwyd gan raglen Chwarae Plant y gronfa Loteri FAWR, ac mae'n anodd gwybod os gwnaeth unrhyw un o'r rhain aros yn y gweithlu chwarae neu waith chwarae pan ddaeth y cyllid i ben. Yn ogystal, bydd y ffigwr o 17,000 wedi ei effeithio gan COVID-19, mewn darpariaeth gwaith chwarae yn ogystal â gofal plant ble cafodd darpariaeth wyneb-yn-wyneb ei ohirio ar y cyfan rhwng Mawrth 2020 a Mawrth 2021. Hyd yn oed pan gynhaliwyd yr arolwg hwn, nid oedd modd i bob darpariaeth y tu allan i oriau ysgol (er enghraifft clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau, cynlluniau mynediad agored) gael ei redeg.

Rhwng Gorffennaf ac Awst 2021, derbyniodd yr arolwg 384 o ymatebion ddarparodd ddata. Mae'n anodd mesur pa mor gynrychiolaidd ydi hyn o'r gweithlu chwarae yng Nghymru. Gyda'r tri grŵp poblogaeth, sef gweithwyr chwarae, gweithwyr



gofal plant / y blynyddoedd cynnar, a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae, mae'r arolwg yn darparu dadansoddiad ar gyfer pob grŵp. Oddi wrth weithwyr chwarae derbyniwyd 209 ymateb (54%) (206 yn Saesneg a 3 yn Gymraeg), 86 (22%) (84 yn Saesneg a 2 yn Gymraeg) ymateb oddi wrth weithwyr gofal plant / y blynyddoedd cynnar, a 89 (23%) ymateb oddi wrth weithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae (a gyflwynwyd yn Saesneg i gyd).

Mae'n anodd nodi sut y mae'r sampl a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn adlewyrchu poblogaeth gyflawn gweithwyr chwarae, gweithwyr gofal plant / y blynyddoedd cynnar a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae. Er enghraifft, yng nghyfrifiad 2011 y DU, nododd 52,429 o ymatebwyr eu bod yn 'weithwyr chwarae' yn ôl eu galwedigaeth, fodd bynnag dim ond 32,754 wnaeth nodi eu bod yn gyflogedig fel gweithwyr chwarae[5]. Gan ystyried y byddai'r rhan fwyaf o'r rhain yn gyflogedig yn Lloegr, byddai 209 o gyfranogwyr oedd yn ystyried eu hunain yn weithwyr chwarae Cymreig yn dynodi maint sampl da, yn enwedig gan y gellir rhagweld y byddai'r nifer o bobl sy'n weithwyr chwarae'n ôl eu galwedigaeth neu'n gyflogedig yn ystod cyfrifiad 2021 yn llai o ganlyniad i fesurau cyni a'r toriadau cyllid cysylltiedig.

O ran gweithwyr gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, gellir amcangyfrif y nifer o bobl sy'n gyflogedig oddi wrth y lleoliadau sydd wedi eu cofrestru gydag AGC[6]. Rhwng 2019 a 2020, roedd gan AGC 385 o leoliadau gofal y tu allan i oriau ysgol a 41 lleoliad chwarae mynediad agored wedi'u cofrestru[7].

Yn ogystal, roedd 970 gofal dydd llawn, 525 gofal dydd sesiynol, 20 crèche, a 2025 o warchodwyr plant wedi'u cofrestru[8]. Ar gyfer gofal y tu allan i oriau ysgol, gallai'r rhain fod yn bobl sy'n ystyried eu hunain yn weithwyr chwarae, yn weithwyr gofal plant neu'r ddau, tra'i bod yn fwy tebygol y byddai gweithwyr lleoliadau mynediad agored yn ystyried eu hunain yn weithwyr chwarae. Mae'r 385 o leoliadau gofal y tu allan i oriau ysgol a'r 41 lleoliad chwarae mynediad agored wedi'u cofrestru gan eu bod yn agored am fwy na phum diwrnod y flwyddyn ac am fwy na dwy awr y dydd. Fodd bynnag, ceir lleoliadau sy'n agored am lai na phum diwrnod neu lai na dwy awr – a'r rheini'n leoliadau gofal y tu allan i oriau ysgol yn ogystal â lleoliadau mynediad agored – sydd ddim yn gorfod cael eu harchwilio. Felly, nid yw'r 385 lleoliad gofal y tu allan i oriau ysgol a'r 41 lleoliad chwarae mynediad agored yn cynnwys lleoliadau heb eu cofrestru.

## Newidiadau rhwng 2008 a 2021

Cynhaliwyd yr astudiaethau gweithlu chwarae diwethaf yng Nghymru yn 2008 a 2010[9]. Ers 2010, mae ariannu'r Loteri FAWR wedi dod i ben ac mae mesurau cyni wedi cael effaith ar y gweithlu chwarae, ond bu cynnydd mewn cymwysterau gwaith chwarae lefel 2 a 3. Mae canlyniadau Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 wedi darparu darlun cyfredol o'r gweithlu chwarae. Mae'r tabl isod yn darparu cymhariaeth o Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 gydag astudiaeth Melyn (2008).

| **Gweithlu** | **Melyn (2008)** | **Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru (2021)** | **SGCh – gweithwyr chwarae** | **SGCh – GP/BC** | **SGCh – gweithwyr proffesiynol eraill** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | 78% benyw (n=453) | 82.9% benyw (n=391) | 78.1% benyw (n=211) | 95.5% benyw (n=90) | 82.2% benyw (n=90) |
| **Oed** | 53% rhwng 19 a 34 oed (n=449) | Oedran cyfartalog 37.77 oed (n=380) | 33.43 oed (n=204)* | 41.57% oed (n=88)* | 43.44 oed (n=88)* |
| **Ethnigrwydd** | 97% gwyn (n=440) | 96.4% gwyn (n=391) | 96.2% gwyn (n=211) | 95.5% gwyn (n=90) | 97.7% gwyn (n=90) |
| **Anabledd** | 1.5% wedi nodi anabledd (n=453) | 5.6% wedi nodi anabledd (n=391) | 7.5% wedi nodi anabledd (n=16) | 1.1% wedi nodi anabledd (n=1) | 5.5% wedi nodi anabledd (n=5) |

| **Cyflogaeth** | **Melyn (2008)** | **Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru (2021)** | **SGCh – gweithwyr chwarae** | **SGCh – GP/BC** | **SGCh – gweithwyr proffesiynol eraill** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | 43% statudol a 37% trydydd sector (n=451) | 60% statudol, 18% trydydd sector a 15.2% busnes (n=250) | 56.5% statudol, 21.3% trydydd sector a 13.9% busnes (n=122) | 61.9% statudol, 9.8% trydydd sector a 22% busnes (n=71) | 60.3% statudol, 19% trydydd sector ac 11.1% busnes (n=63) |
| **Amser llawn** | 34% amser llawn blwyddyn gron (n=453)<br>22% amser llawn rhan o'r flwyddyn (n=453) | 47.5% amser llawn yn unig (n=265)<br>6.0% amser llawn a rhan amser wedi'u cyfuno (n=265) | 35.4% amser llawn yn unig (n=127)*<br>7.8% amser llawn a rhan amser wedi'u cyfuno (n=127) | 64% amser llawn yn unig (n=75)*<br>5.3% amser llawn a rhan amser wedi'u cyfuno (n=75) | 52% amser llawn yn unig (n=63)*<br>3.1% amser llawn a rhan amser wedi'u cyfuno (n=63) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan amser** | 18% trwy gydol y flwyddyn (n=453)<br>23% rhan o'r flwyddyn (n=453) | 23.7% rhan amser yn unig (n=265)<br>5.6% mwy nag un swydd rhan amser (n=265) | 28.3% rhan amser yn unig (n=127)*<br>6.2% mwy nag un swydd rhan amser (n=127) | 18.6% rhan amser yn unig (n=75)*<br>5.3% mwy nag un swydd rhan amser (n=75) | 20.6% rhan amser yn unig (n=63)*<br>4.7% mwy nag un swydd rhan amser (n=63) |
| **Hyd gwasanaeth cyfartalog** | 4 blynedd a 6 mis (n=407) | 7.03 mlynedd (n=259) | 5.85 mlynedd (n=123)* | 8.48 mlynedd (n=73)* | 7.39 mlynedd (n=63)* |
| **Wythnos waith gyfartalog amser llawn** | 24 awr (n=453) | 36.24 awr (n=139) | 35.09 awr (n=53) | 36.9 awr (n=50) | 37.01 awr (n=36) |
| **Wythnos waith gyfartalog rhan amser** | Dim gwybodaeth ar gael | 17 awr (n=89) swydd 1<br>13 awr (n=19) swydd 2 | 16.03 (n=49) swydd 1<br>16.02 (n=9) swydd 2 | 19.46 (n=20) swydd 1<br>14.8 (n=5) swydd 2 | 19.5 (n=20) swydd 1<br>6 (n=5) swydd 2 |
| **Cyflog cyfartalog yr awr amser llawn** | £6.85 (n=139) | £11.39 (n=40) | £10.76 (n=17)* | £10.61 (n=15)* | £14.17 (n=8)* |
| **Cyflog cyfartalog yr awr rhan amser** | Dim gwybodaeth ar gael | £11.40 (n=70) swydd 1<br>£14.83 (n=16) swydd 2 | £10.29 (n=44)* swydd 1<br>£10.33 (n=9)* swydd 2 | £10.28 (n=16)* swydd 1<br>£11.57 (n=4)* swydd 2 | £18.11 (n=10)* swydd 1<br>£32.66 (n=3)* swydd 2 |
| **Cyflog cyfartalog y flwyddyn amser llawn** | Dim gwybodaeth ar gael | £24,384.14 (n=82) | £23,968.98 (n=31) | £22,743.50 (n=22) | £26,072.55 (n=29) |
| **Cyflog cyfartalog y flwyddyn rhan amser** | Dim gwybodaeth ar gael | £11,922.61 (n=33) swydd 1 | £8.305.77 (n=17) swydd 1 | £12,066.66 (n=6) swydd 1 | £17,984.80 (n=10) swydd 1 |

| Cymwysterau a hyfforddiant | Melyn (2008) | Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru (2021) | SGCh – gweithwyr chwarae | SGCh – GP/BC | SGCh – gweithwyr proffesiynol eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | 62% heb gymhwyster gwaith chwarae (n=453)<br>39% yn meddu ar gymhwyster gwaith chwarae (n=453)<br>40% yn meddu ar gymhwyster perthnasol i chwarae (n=453) | 20.5 % heb gymhwyster gwaith chwarae na gofal plant (n=258)<br>33.7% dim ond yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae (n=258)<br>26% dim ond yn meddu ar gymwysterau gofal plant (n=258)<br>19.8% yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae a gofal plant (n=258) | 24.3% heb gymhwyster gwaith chwarae na gofal plant (n=123)*<br>58.5% dim ond yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae (n=123)*<br>12.1% dim ond yn meddu ar gymwysterau gofal plant (n=123)*<br>5% yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae a gofal plant (n=123)* | 6.8% heb gymhwyster gwaith chwarae na gofal plant (n=73)*<br>0% dim ond yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae (n=73)*<br>61.6% dim ond yn meddu ar gymwysterau gofal plant (n=73)*<br>31.5% yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae a gofal plant (n=73)* | 29% heb gymhwyster gwaith chwarae na gofal plant (n=62)*<br>24.1% dim ond yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae (n=62)*<br>25.8% dim ond yn meddu ar gymwysterau gofal plant (n=62)*<br>20.9% yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae a gofal plant (n=62)* |
| **Cymwysterau gwaith chwarae penodol** | 14% gyda lefel 2 (n=453)<br>21% gyda lefel 3 (n=453) | 25.5% gyda lefel 2 (n=258)<br>30.2% gyda lefel 3 (n=258) | 40.1% gyda lefel 2 (n=112)<br>42.8% gyda lefel 3 (n=112) | 23% gyda lefel 2 (n=26)<br>65.39% gyda lefel 3 (n=26) | 46.8% gyda lefel 2 (n=32)<br>40.6% gyda lefel 3 (n=32) |
| **Hyfforddiant gwaith chwarae** | 52% wedi cwblhau hyfforddiant gwaith chwarae yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (n=363) | 50.8% wedi cwblhau rhyw fath o DPP (n=391) | 44% wedi cwblhau rhyw fath o DPP (n=211) | 63.3% wedi cwblhau rhyw fath o DPP (n=90) | 54.4% wedi cwblhau rhyw fath o DPP (n=90) |

* Ystadegol arwyddocaol

Mae'r gymhariaeth rhwng Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 ac astudiaeth Melyn (2008) yn dynodi:

- Bod y gweithlu'n dal yn fenywaidd yn bennaf
- Bod y gweithlu'n dal â diffyg amrywiaeth a recriwtio pobl anabl
- Bod y gweithlu'n dal i fod â lefel uchel o gyflogaeth rhan amser
- Mae'n bosibl bod llawer o bobl yn y gweithlu'n dal i fod â mwy nag un swydd
- Mae'r cymwysterau chwarae a gwaith chwarae y mae pobl yn meddu arnynt yn dal i fod yn gymysgedd o rhai gwaith chwarae penodol a rhai y gellir eu defnyddio ar gyfer gwaith chwarae
- Mae'r mwyafrif o gymwysterau gwaith chwarae a enillir yn lefel 3, ond mae cynnydd i'w weld yn lefel 2.

Bu ambell newid o ran:

- Mae oedran cyfartalog y gweithlu chwarae wedi cynyddu o 34 i 37.77 oed
- Mae'r hyd gwasanaeth cyfartalog wedi cynyddu o 4.5 mlynedd i 7.03 mlynedd
- Mae cyflog yn y sector wedi cynyddu i £11.39 yr awr am gyflogaeth amser llawn ac £11.40 yr awr am gyflogaeth rhan amser (mae hyn yn cynnwys pob rôl swydd o reolwr i ymarferydd)
- Mae'r mwyafrif o weithwyr chwarae bellach yn meddu ar gymhwyster gwaith chwarae
- Mae'r gweithlu, ar gyfartaledd, yn hŷn nag yn 2008, er bod dal cyflogaeth dymhorol ifanc o blith y boblogaeth myfyrwyr
- Mae lefel hyfforddiant gwaith chwarae yn isel ac mae'r mwyafrif o DPP yn digwydd ar-lein (gyda dylanwad cryf COVID-19 yn ystod 2020/2021).

Wrth ystyried y cymwysterau gwaith chwarae sy'n cael eu hastudio, nododd adroddiad Melyn yn 2010:

> *'Mae cyswllt agos rhwng y galw am hyfforddiant gwaith chwarae a'r cyflenwad o swyddi gwaith chwarae. Mae pobl yn dueddol o beidio dilyn llwybr hyfforddiant galwedigaethol yn y sector chwarae oni bai eu bod wedi'u cyflogi fel gweithiwr chwarae eisoes. At hynny, gan nad oes dull cyffredin ar gyfer y broses sefydlu ar gyfer gweithwyr chwarae ar draws Cymru bydd hyn yn arwain, yn anochel, at amrywiaeth yn ansawdd y ddarpariaeth chwarae. Yn benodol, mae mwy a mwy o weithwyr chwarae mewn lleoliadau y tu allan i oriau ysgol sy'n meddu ar fawr ddim hyfforddiant chwarae ac sy'n aml â diffyg dealltwriaeth am egwyddorion gwaith chwarae sylfaenol.*'[10]

Fodd bynnag, yn ogystal â'r cyflenwad o rolau gwaith chwarae, mae heriau hefyd yn gysylltiedig ag argaeledd cymwysterau a ble y gellir astudio gwaith chwarae. Mewn chwiliad am gymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru mewn colegau AB, gwelwyd bod amrywiaeth yn lefel y cymhwyster yn ogystal â ble a sut y gellir eu hastudio. Cafodd yr amrywiaeth mewn cymwysterau gwaith chwarae yng nghyd-destun colegau AB ei grynhoi gan sylw oddi wrth y grŵp ffocws:

> *'Oherwydd bod gennym weithlu mor fawr a chyfleoedd i wneud pethau, fe ddylai fod yn ein coleg AB lleol. Fe ddywedon nhw [y Coleg AB] nad ydi gwaith chwarae erioed wedi cael ei hyrwyddo iddyn nhw fel proffesiwn mewn noson yrfaoedd.'*

Ar hyn o bryd, mae ymholiadau am gymwysterau gwaith chwarae'n cael eu cyfeirio at un o dri sefydliad: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales a Chwarae Cymru. Mae'r tri sefydliad yn rhan o greu a throsglwyddo cymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru. Nodwyd hyn yng nghyfweliadau'r swyddogion arweiniol ADCh yn ogystal â'r cyfweliadau ymarferwyr unigol a'r grŵp ffocws, ble gwnaethant gydnabod o ran cymwysterau gwaith chwarae, ar gyfer gwybodaeth a'u hastudio, mai un o'r tri sefydliad yma y byddent yn ei alw'n gyntaf.

## Casgliad

Prif nod yr ymchwil oedd ennill dealltwriaeth o'r gweithlu chwarae yng Nghymru a chyfrannu at Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae 2019-21 Llywodraeth Cymru sy'n anelu i edrych ar chwarae yng nghyd-destun ehangach y ddyletswydd statudol.

Mae'r sefyllfa gyfredol yn Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021 yn dynodi bod tebygrwydd rhwng gweithwyr chwarae, gweithwyr gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes chwarae, er enghraifft rhyw.

Fodd bynnag, mae rhywfaint o wahaniaethau amlwyg hefyd o ran oedran, cyflogaeth, cyflog, a chymwysterau rhwng y tri grŵp. Mae'r astudiaeth hon yn darparu trosolwg o'r gweithlu chwarae mewn tri maes sy'n gorgyffwrdd: strategol, cysylltiadau rhwng y strategol ac ymarfer a'r gweithlu chwarae ei hun.

## Cyfeiriadau


[1] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[2] Grŵp Craffu yr Egwyddorion Gwaith Chwarae (2005) Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae. Codwyd o www.chwaraecymru.org.uk/cym/egwyddoriongwaithchwarae

[3] Melyn Consulting (2010) *Adolygiad o'r Gallu ar gyfer, a'r Modd y Cyflenwir Hyfforddiant Chwarae yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, td.47.

[4] Llywodraeth Cymru (2018) *Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[5] King, P. a Newstead, S. (2020) Demographic data and barriers to professionalisation in playwork, *Journal of Vocational Education & Training*, DOI: 10.1080/13636820.2020.1744694

[6] Arolygiaeth Gofal Cymru (2020) *Gwella gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2019-20.* Sarn Mynach: Arolygiaeth Gofal Cymru.

[7] Ibid.

[8] Ibid.

[9] Melyn Consulting (2008) *Where are you? Ble wyt ti? Arolwg Gweithlu Chwarae 2008*, *Chwarae Cymru*. Caerdydd: Chwarae Cymru; *Adolygiad o'r Gallu ar gyfer, a'r Modd y Cyflenwir Hyfforddiant Chwarae yng Nghymru*.

[10] *Adolygiad o'r Gallu ar gyfer, a'r Modd y Cyflenwir Hyfforddiant Chwarae yng Nghymru*, td.48-49.


**Os hoffech gopi o'r adroddiad ymchwil llawn, ebostiwch gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk**